

Dod i f'adnabod: 7-11 oed

Wedi'u cynnwys:

- ✓ Cynllun gweithgaredd
- ✓ Templedi llythyrau argraffadwy:
 - taflen waith 1 i'r holl ddisgyblion
 - taflen waith 2 i blant 7-9 oed neu rai ag ADY
- ✓ Templed amlenni argraffadwy

Canllawiau i athrawon

Argraffwch y templed a gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu llythyr atyn nhw eu hunain am eu nodau a'u bwriadau am y flwyddyn, y byddan nhw'n ei ddarllen eto yn nhymor yr haf ac yn myfyrio ar eu cynnydd. Dangoswch yr ymarfer o flaen y dosbarth.

Annwyl Miss Thompson,

Dwi'n gwybod dy fod ti'n poeni ychydig am gofio enwau'r holl ddisgyblion yn dy ddosbarth newydd. I dy helpu i gofio eu henwau a theimlo'n fwy hyderus byddi di'n llunio cynllun byrddau ac yn ysgrifennu enw pob disgybl ar y bwrdd mae'n arfer eistedd wrtho. Byddi di'n chwarae gemau gyda dy ddosbarth a fydd yn helpu pawb i ddod i adnabod ei gilydd ychydig yn fwy.

Byddi di hefyd yn magu digon o ddewrder i ddysgu nofio fel oedolyn. Wnest ti ddim dysgu sut i nofio pan oeddet ti'n blentyn, ond rwyt ti eisiau dysgu erioed. Byddi di'n poeni am roi dy ben o dan y dŵr, felly byddi di'n ymarfer trwy sefyll ym mhen bas y pwll i ddechrau – bydd hyn yn gwneud iti deimlo'n ddiogel ac yn llai pryderus. Erbyn diwedd y flwyddyn byddi di'n teimlo'n falch iawn oherwydd byddi di'n gallu nofio dau hyd o'r pwll nofio.

Nod yr ymarfer hwn yw helpu'r disgyblion i ddod i adnabod eu hunain ychydig yn fwy – i osod nodau realistig ac i fod â dyheadau i roi hwb i'w hyder a'u hunan-dyb. Gofynnwch i'r disgyblion beth yr hoffon nhw fod wedi'i gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ysgol yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Promptiau gan yr athro

Ciwiau: Wrth ysgrifennu eu llythyrau, dylai'r disgyblion ystyried y cwestiynau canlynol:

- Sut fydd dy bersonoliaeth wedi newid? (codi dy law mwy yn y dosbarth, bod yn siaradus, yn ddigrif, yn swnllyd, yn ofalgar, yn garedig, eistedd yn llonydd mwy, bod yn amyneddgar, yn wrandawr da, yn egniol, yn fwy hyderus, gofyn cwestiynau ac ati)
- Pa hobiau fydd gen ti? (gwrando ar gerddoriaeth, chwarae gemau fideo, dawnsio, dysgu offeryn cerdd, darllen, arlunio / gwneud pethau, cymryd rhan mewn chwaraeon, pobi ac ati)
- Beth fyddi di wedi dysgu amdanat ti dy hun? (sut i fod yn ffrind da, sut i dawelu dy hun os wyt ti'n mynd yn ddig neu'n teimlo'n ypsét, sut i ddweud wrth oedolyn os wyt ti'n poeni am rywbeth, sut i chwarae gemau gyda brawd neu chwaer neu fod yn fwy caredig wrtho / wrthi ac ati)
- Beth yw'r pethau y byddi di wedi'u cyflawni / yn gallu eu gwneud nawr yn yr ysgol a'r tu allan iddi? (cymryd rhan mewn camp penodol, wedi darllen llawer o lyfrau, gwybod geiriau dy hoff gân, dysgu dawnsdrefn, dysgu tric ar sglefr-fwrdd, clymu careiau, dysgu tabl rhif 8 ac ati).

Ar ddiwedd y tymor olaf, gall y disgyblion agor y llythyrau maen nhw wedi'u hysgrifennu atyn nhw eu hunain a siarad am y canlynol:

- Sut wyt ti'n teimlo wrth ddarllen y llythyr ysgrifennaist atat dy hun ar ddechrau'r flwyddyn ysgol?
- Myfyria ar y flwyddyn ddiwethaf – beth wyt ti wedi dysgu amdanat ti dy hun?
- Oedd y nodau osodaist i ti dy hun yn realistig?
- Beth fyddet ti'n ei wneud yn wahanol pe baet ti'n dechrau gosod nodau eto?

7-9 oed neu rai ag ADY

Gofynnwch i'ch disgyblion roi crynodeb o'r hyn maen nhw eisiau ei gyflawni ar ffurf lluniau (gan gynnwys labeli) yn y blwch a ddarperir e.e. tynnu llun ohonyn nhw eu hunain yn codi llaw yn y dosbarth, ar feic, yn chwarae pêl-droed, yn chwarae gemau gyda ffrindiau, yn nofio ac ati. Yn lle llythyr, gofynnwch i'r plant hyn ysgrifennu paragraff am y pethau y bydden nhw'n hoffi eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn. Cyflwynwch eirfa o eiriau y gallan nhw weithio gyda nhw:

Geirfa: nod, cyflawni, cyflawniad, hyder, penderfynol, llawn cymhelliant, mwynhau, dewr, personoliaeth, dyfalbarhad.


Dewis arall yw troi hyn yn ymarfer dosbarth, lle mae'r dosbarth cyfan yn penderfynu beth y bydden nhw'n hoffi ei gyflawni ar y cyd erbyn diwedd y flwyddyn ysgol. Ar ôl iddyn nhw orffen ysgrifennu, gofynnwch i'r holl ddisgyblion ddefnyddio'r templed a ddarperir i greu amlen y gallan nhw roi eu llythyr ynddi.

Dod i f'adnabod: llythyr ataf i fy hun

Annwyl _____

Oddi wrth _____

Dod i f'adnabod



Geirfa:

**nod, cyflawni, dewr,
hyder, penderfynol, I
lawn cymhelliant,
mwynhau, cyflawniad,
personoliaeth,
dyfalbarhad**

Plygwch



Torrwch

